

## CYNGO.R CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 3ydd o Fawrth 2015

**Yn bresennol / Present:** Cyng Geraint Hatcher, Cyng Alun James, Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng Geraint Davies, Cyng Helen Howells, Cyng Bill Green, Cyng Lewis Davies, Cyng Daff Davies

**Ymddiheiriadau/ Apologise:** Cyng Euros Davies, Cyng Mary Thomas

Llongyfarchwyd CFFI Llanwenog ar ennill Pantomeim y Sir a dymunwyd yn dda iddynt ar lefel Cymru, Enfys Hatcher ar cael ei dewis yn Frenhines y Sir a Sioned Davies yn forwyn iddi. Llanwenog YFC were congratulated on winning the County Pantomime and good wishes were extended to them for the Wales final, additionally congratulations were extended to Enfys Hatcher on being chosen as County Queen and Sioned Davies as one of her attendants.

1	<b><u>Datgelu Buddianau Personol / Declare Personal Interests</u></b> Nid oedd neb yn datgelu buddiant personol. Nobody declared a personal interest.
2	<b><u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u></b> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror yn gywir gan y Cyng. Bill Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Lewis Davies. The February minutes were proposed as a true record by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Lewis Davies.
3.	<b><u>Materion yn Codi – Matters Arising</u></b>
a.	Cae Chwarae Cae Sarn / Cae Sarn Playing Field. Yn dilyn cyfarfod agored ar yr 11eg o Chwefror yn Ysgol Cwrtnewydd sefydlwyd pwyllgor y Cae Chwarae o bobl y Pentref, Cadeirydd: Ann Evendon, Ysgrifennydd: Nia Thomas, Trysorydd: Ifor Jones. Cafwyd ymchwiliad ar y safle gan berson o ROSPA ar ddydd Sadwrn yr 28ain o Chwefror ac mi roedd angen newid y planciau pren i rhai metal, ail beintio a thynnu'r rhwd bant a cau'r bylchau yn y llawr. Mi fyddai'n creu adroddiad ac yn ei ddanfôn i'r Clerc a fydd yn holi i'r Cyngor Sir wneud y gwaith a thalu amdano cyn ein bod yn arwyddo'r lease. Roedd y Clerc wedi siarad a'r cwmni yswiriant ac mi roedd yr yswiriant sydd gyda ni'n barod yn ddigonol ar gyfer y Public Liability ond nid ar gyfer unrhyw ddwyn neu niwed i'r offer. Mi fydd y pwyllgor yn torri'r porfa, yn cynnal a chadw'r parc ac yn gwneud asesiad wythnosol o'r offer a chadw cofnod o hyn. Mi fydd y Cyngor Cymuned yn talu am archwiliad ROSPA. Following on from a public meeting held on the 11 <sup>th</sup> February in Cwrtnewydd School a committee was formed for the Playing field comprising of Chairman: Ann Evendon, Secretary: Nia Thomas, Treasurer: Ifor Jones. An inspection was undertaken by ROSPA on the 28 <sup>th</sup> February and timber boards needed replacing with metal ones, re-painting and getting rid of the rust and closing the gaps in the flooring needed doing within the next 12 months. He will create a report and send it to the Clerk who will ask the County Council to carry out the work and pay for it before the Community Council take over the lease. The Clerk had spoken with the insurance company and the current insurance is sufficient to cover the public liability but not for theft or damage. The committee will cut the grass, maintain the park and undertake a weekly assessment of the equipment which is required by ROSPA. The Community Council will pay for the ROSPA annual inspections.
b.	Cofgolofn Drefach / Drefach War Memorial: Yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r cyfreithwyr fe ddaeth i'r fei nad oeddynt wedi gwneud yr hyn a ofynwyd iddynt sef newid gofalaeth a

	<p>pherchnogaeth y gofgolofn o'r ymddiriedolaeth i'r Cyngor Cymuned ac mae nawr angen datrys hyn. Cynghorodd y Cyng Helen Howells i'r Clerc siarad gyda CAVO am gyngor ar sut i gysylltu gyda Comisiwn yr Elusennau i gau'r ymddiriedolaeth. Mi fyddai yswiriant y gofgolofn yn medru cael ei wneud o dan Public Liability y Cyngor Cymuned. Following further correspondence with the Solicitors the Clerk had flagged up that what we asked them to do, which was to change the ownership and responsibility of the war memorial from the trust to the community council is not what has happened and this needs resolving. Cllr Helen Howells suggested that the Clerk asked CAVO for advice on how to proceed and how to contact the Charity Commission to close the Trust. The insurance of the war memorial would then be covered by the Community Council's Public Liability.</p> <p>c. Taith Dros Fywyd 26/4/2015 Walk for Life: Mi fyddai'r daith yn dechrau am 10yb o Gefn-hafod ac yn mynd tuag at Castell Moeddyn a nôl i Gorsgoch am tamed o fwyd. The walk will start at 10am from Cefn-hafod and go towards Castell Moeddyn and back to Gorsgoch for some food.</p> <p>d. Cinio'r Cyngor Cymuned 24/4/2015 – Ffostrasol Arms 7.30yh Community Council Annual Dinner. Wedi ei gadarnhau ac mae angen i'r Clerc dderbyn dewisiadau pawb erbyn y cyfarfod nesaf. This has been confirmed and the Clerk requires people's choices for the next meeting.</p> <p>e. Cyfarfod Cartrefi Henoed Ceredigion – Ceredigion Old People's Homes Meeting. Fe wnaeth y Cyng Bill Green a'r Cyng Daff Davies fynychu'r cyfarfod a'r hyn a adroddwyd oedd mae'n edrych yn debyg mae nod y cyngor yw i breifiateiddio'r system. Cllr Bill Green and Cllr Daff Davies attended the meeting and it was reported back that it reading between the lines it seemed that the council want to privatise the homes.</p>
<p>4</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p>	<p><b><u>Gohebiaeth</u></b></p> <p>Cyfarfod Clerciaid Gorllewin Cymru SLCC 7<sup>th</sup> o Fawrth Dinbych y Pysgod. Society Local Council Clerks West Wales Branch Meeting 7<sup>th</sup> March, Tenby.</p> <p>Cau Ffordd Dros Dro B43378 Gorsgoch 11/2 -15/2/2015. Temporary closure of the B43378 Gorgsoch 11/2 – 15.2.</p> <p>Tai Cantref – Derbyniwyd llythyr wrthynt yn dweud wrthym am gynllun dros 50 oed y mudiad ar gyfer tai. Penderfynwyd rhoi'r daflen i ysgrifennydd Neuadd Gorsgoch gan bod y swyddog o Tai Cantref yn fodlon mynychu cyfarfodydd a rhoi cyflwyniad o'r hyn y maent yn ei gynnig. A letter was received highlighting their 50+ scheme for housing. It was decided to give the pamphlet to Gorsgoch Hall Secretry as the officer from Tai Cantref is willing to attend meetings and give a presentation of what they offer.</p> <p>Cylchgrawn Play for Wales er gwybodaeth. Play for Wales magazine for info.</p>
<p>5.</p> <p>a.</p>	<p><b><u>Taliadau a Ceisiadau am Arian / Payments and requests</u></b></p> <p>Trosglwyddo Arian £1000.00. Pasiwyd i drosgwylddo'r arian ond wedi i'r Clerc fod i'r banc nid oes arian ar ol yn y cyfrif Cadw. Felly cyn fydd y taliadau isod yn medru cael eu gwneud bydd rhaid i'r presept gael ei dalu fewn gan y Cyngor Sir. It was passed to transfer the money however the Clerk went to the bank following the meeting and there is no money left in the Savings account. Therefore before the following payments can be made the precept will need to paid in.</p>

b.	Deddf Hapchwarae 2005 Gambling Act- £20.00
c.	Costau Cyfieithu/Translation Costs - £135.60
d.	Treuliau'r Clerc/Clerk Expenses – £160.00
e.	Llogi Neuadd Drefach/Drefach Hall - £55.00
f.	Costau'r Cadeirydd/Chairman's Allowance - £350.00
g.	Euros Davies Byrddau Arddangos y Ciosgs/Kiosk display boards - £130.50 Land Registry - £40.00
h.	Bois y Gilfach – Teimlwyd nad oedd aelodau o'r plwyf yn rhan o'r parti yma ac felly gan fod arian yn bring gan y Cyngor Cymuned i beidio a'u cefnogi eleni. It was felt as there were no members from this parish forming part of the party and that the Community Council were low on funds that we would not be able to support them this year.
i.	Cruse Bereavement / Gofal Mewn Galar - £20.00 Cynnig: Cyng Gwilym Jenkins Eilio: Cyng Bill Green
6.	<b><u>Ceisiadau Cynllunio/ Planning Applications</u></b>
a.	A150039- Land adj Foelfechan, Drefach - Erection of two semi-detached dwellings. Relocation of roadside hedgebank and new access road. – Dim gwrthwynebiad / No objection
b.	A150038- Rhosgarn, Whilgarn – Fferm Wynt – Erection of 3 wind turbines 126.5m to tip, (80m to hub and 93m rotor diameter) – Gwrthwynebu/Object on grounds of visual impact, effect on landscape, potential noise and their scale.
c.	A140798 –Talardd, Llanwnnen Erection of Manege - APPROVED
d.	Ymgynghoriad ar Canllaw Cynllunio Atodol – Y Gymuned a'r Gymraeg erbyn 8/4/2015
8.	<b><u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></b>
a.	<b><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting</u></b> Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 7fed o Ebrill am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on the 7 <sup>th</sup> of April at 7.30pm at Drefach Village Hall.
b.	Broadband – Fe wnaeth y Cyng Geraint Davies ddweud y bydd y Superfast Broadband yn cyrraedd llinellau ffon 480 a 481 erbyn diwedd y mis. Cllr Geraint Davies said that the Superfast Broadband will reach phone lines 480 and 481 by the end of the month.

